

Archifau Morgannwg



DARGANFOD Y GORFFENNOL

1 Mawrth 2015- 29 Chwefror 2016



Cynnwys


<i>Cyflwyniad</i>	2
<i>Y Casgliad</i>	4
<i>Mynediad</i>	10



Cyflwyniad

Croeso i 6ed Adroddiad Blynyddol Archifau Morgannwg sy'n disgrifio ein weithgareddau yn y cyfnod o 1 Mawrth 2015 hyd at 29 Chwefror 2016.

Bydd darllenwyr rheolaidd yn gwybod nad oedd modd talu am y cynnydd enfawr mewn ardrethi busnes yn 2015 ond drwy ddileu 3 swydd a cholli 2 uwch archifydd. Dros y flwyddyn, gadawodd 2 archifydd pellach a chynorthwy-ydd cadwedigaaeth ar famolaeth, gyda cynorthwy-ydd cofnodion yn dechrau ar flwyddyn sabothol ym mis Tachwedd. Mae'r effaith yn glir yn yr ystadegau blynyddol. Roedd yn rhaid lleihau oriau agor yr ystafell ymchwil, nid oedd modd parhau i agor ar fore Sadwrn bob mis, ac rydym bellach yn agor am 10yb yn lle 9yb. Effeithiwyd ar oriau gwirfoddoli (5,831) wrth i leoliadau profiad gwaith leihau o bythefnos i wythnos, a gofynnir i wirfoddolwyr beidio â gwirfoddoli dros y Nadolig nac yn ystod y ddwy wythnos pan mae'r Archifau ar gau i wneud gwaith ar y Casgliad. Bellach, rydym yn gwbl ddibynnol ar grantiau ar gyfer projectau catalogio a chadwraeth mawr.



Recriwtiwyd staff gweithredol rhan amser i gydbwysu'r absenoldebau'n rhannol, y telir y rhan fwyaf ohonynt drwy ffynonellau allanol gan gynnwys Mynediad i Waith a grantiau amrywiol. Mae hyfforddi staff mewn prosesau a gweithdrefnau sefydledig a chlr wedi bod yn werthfawr ac rydym yn arbennig o falch ein bod wedi cyflawni achrediad Efydd Buddsoddwyr Mewn Pobl yn ystod blwyddyn mor heriol. Noda adroddiad yr Adolygiad:

Mae'r tîm cyfan yn ymrwymedig, ffyddlon ac yn falch o weithio i Archifau Morgannwg ... sy'n sefydliad blaenllaw yn y sector ... o ystyried heriau'r misoedd diwethaf, mae Archifau Morgannwg yn sefydliad gwydn sy'n gadarn wrth gynnig ei wasanaethau ... drwy dîm ymrwymedig, llawn cymhellant.



Gan aros ar y newyddion da, rydym hefyd wedi bwrw targedau incwm i dalu am y gostyngiadau bach yn y gyllideb y bu'n rhaid i awdurdodau ariannu eu gwneud. Hyd yma, nid yw wedi effeithio ar ein gwasanaethau. Canfuom farchnad ar gyfer mannau yn yr adeilad nas defnyddir, yn y storfeydd a'r swyddfeydd, ac mae'r gwasanaethau cadwraeth, sef gwaith 'mainc' a chreu blychau, wrthi'n ehangu nifer y cleientiaid allanol sydd ganddynt.

Y Casgliad

Cadwraeth

Project cadwraeth mawr eleni oedd arolwg ystadau Ffwl-y-mwn o 1622 gan Evans Mouse, a ariannwyd gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Llawysgrifau Genedlaethol (NMCT). Mae'r mapiau ymhlith y rhai cyntaf o Forgannwg ac yn dangos ystâd Sant Ioan yn y Barri, Llancadle, Ffwl-y-mwn a Phen-marc fel rhan o arolwg ehangach o dir y teulu. Wedi'u llunio ar femrwn ar raddfa o tua 20 modfedd:1 filltir, mae'r mapiau lliwgar yn dangos adeiladau, ffyrdd a hyd yn oed cychod ar y môr yn ogystal â'r ffiniau hollbwysig. Mae'r cyfeirlyfr ategol yn rhestru tenantiaid, erwau a chyflwr amaethiad. Mae cyflwr y dogfennau wedi golygu eu bod yn anodd eu defnyddio. Roedd y cyfeirlyfr mewn cyflwr arbennig o ddrwg ac roedd y mapiau'n frwnt, gyda gwaith cynharach i'w hatgyweirio'n achosi difrod ynddo'i hun. Mae pigment hŷn yn aml yn cynnwys metelau trwm tocsig. Trefnodd y swyddog cadwraeth gwirfoddol, Amanda Jones, gydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd lle nododd yr ymchwilydd PhD Chris Wilkinson, gan ddefnyddio sbectrometreg fflwroleuol pelydr-X (XRF), yr inciau, gan gadarnhau nad oedd arsenig, y prif bryder, i'w gael ar y mapiau. Cwblhawyd y project cadwraeth, ac mae'r gwelliant yn amlwg.





Cwblhawyd y project Curtain Up ar raglenni Theatre Royal Caerdydd gyda chatalog y gellir ei chwilio'n llawn, a rhoddwyd delweddau o bob rhaglen ar y wefan. Hefyd, cwblhawyd y project ar y cyd ar gofnodion diwydiant dur Cymru, Forging Ahead. Ariannwyd y ddau gan NMCT.

Aseswyd anghenion cadwraeth y Casgliad a rhoddwyd blaenoriaeth i drin mathau o ddeunyddiau yn hytrach na dogfennau unigol. Sefydlwyd rhaglen ddigideiddio ar gyfer negyddion plât gwydr gyda chymorth gwirfoddolwyr. Mae cofnodion y Bwrdd Glo Cenedlaethol yn cynnwys llawer o negyddion ffotograffig (dros 32,000) y dangoswyd ar ôl eu harchwilio eu bod o fath sy'n diraddio dros amser, gan golli delweddau a chreu nwyon tocsig. Lansiwyd gwaith brys i bacio a rhewi'r gyfres hon, sydd bellach yn cael ei digideiddio mewn amgylchedd a reolir.



Gwnaeth y tîm hefyd gyflawni project anarferol i Gyngor Penybont-ar-Ogwr; cadw is-ddeddfau argraffedig marchnad Maesteg, a bastiwyd ar ddarn o bren. Datgelwyd "Siarter y Farchnad" newydd wrth i'r adeilad gael ei ail-agor ar ôl ei adnewyddu, gyda'r staff cadwraeth yn bresennol.

Catalogio

Daeth 245 o dderbyniadau i law eleni. Rhoddir manylion i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg bob chwarter, a gallwch eu gweld ar wefan Cyngor Caerdydd. Mae dolen ar waelod tudalen y Gydbwyllgor ar wefan Archifau Morgannwg.

Adneuodd Ffederasiwn Sefydliadau Merched Morgannwg nifer fawr o gofnodion o'u canghennau amrywiol i ni, a chafwyd un ar wahân gan Sefydliad y Merched Gwaelod-y-Garth, gan gynnwys llyfrau cofnodion o'r cyfarfod sefydlu ym 1950 - amserol iawn ym mlwyddyn canmlwyddiant y Sefydliad. Cafwyd eitem ddifyr arall drwy Gymdeithas Hanes Morgannwg, sef llyfr o gynlluniau o Lofa'r Parc a chofnodion ar ffrwydrad Glofa Cambria ym 1965, gan gynnwys papurau'r ymchwiliad.

Ond thema'r flwyddyn oedd adloniant, gan ddechrau â rhodd papurau Stan Stennett. Fe'i ganed ger Pen-y-bont ar Ogwr a threuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd yng Nghaerdydd. Dechreuodd gyrfa Stan yn y lluoedd arfog yn y 1940au, a bu'n gweithio hyd ei farwolaeth yn 2013. Gweithiodd ar y llwyfan, radio, teledu ac mewn ffilmiau gyda rolau yn Crossroads a Coronation Street, a gweithiodd ar lwyfan ochr yn ochr â rhai o actau amrywiaeth gorau Prydain yn ogystal ag artistiaid rhyngwladol. Roedd yn gerddor dawnus, gan ymddangos yn y Black and White Minstrel Show yn y 1960au, ac yn un o hoelion wyth y pantomeim.





Hefyd, roedd yn ŵr busnes llwyddiannus gyda nifer o ddiddordebau hamdden oedd yn rheoli theatrau, sinemâu a chanolfannau celfyddydol ledled Prydain; roedd yn beilot brwd, yn hoff o golff ac, am gyfnod, roedd yn gyfarwyddwr ar CPD Dinas Caerdydd. Mae'r casgliad cynhwysfawr hwn yn cynnwys llyfrau lloffion, ffotograffau, sgriptiau, rhaglenni theatr, posterï a thociadau newyddion sy'n gipolwg ar adloniant ysgafn ym Mhrydain o'r 1940au i 2013. Maent wedi cael eu catalogio, diolch i grant gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru, ac mae modd i ymchwilwyr gael mynediad atynt.

Caeodd Carnifal Celf Gymunedol Ryng-ddiwyllyannol De Cymru (SWICA), a sefydlwyd ym 1990, ym mis Tachwedd 2015 pan ddaeth yr arian ar ei gyfer i ben. Cyflwynwyd y cofnodion, sy'n dogfennu eu cyflawniadau wrth ddatblygu dathliadau newydd i Gymru gyfoes. Rhedai SWICA weithdai ar gyfer celfyddydau carnifal ac offerynnau taro samba a threfnwyd carnifalau gan gynnwys yng Nghaerdydd ac Abertawe, paredau mawr fel Gorymdaith Genedlaethol Dydd Gŵyl Dewi Caerdydd, Pasio'r Ffagl Olympaidd a Pharalymaidd, Carnifal Rhif 6 ym Mhortmeirion, a Paredau Nadolig yng nghymoedd y De. Gweithiodd SWICA drwy gydol y flwyddyn ar broiectau cyfranogol a dathliadau mawr a bach mewn ysgolion a chanolfannau cymunedol, gan gynnig ystod bwrpasol o berfformiadau a gweithdai i garnifalau penodol a helpu cymunedau lleol i ddathlu eu hunain. Roedd fideos a DVDs o ddigwyddiadau yn y rhodd, a chânt eu rhoi i Amgueddfa Stori Caerdydd



I drefnu a rhestru'r derbyniadau mawr yma gyda llai o staff, bu'n rhaid i ni gau i'r cyhoedd am ddwy wythnos ar wahân eleni, ond golygai hyn y gallem restru casgliadau a'u gwneud yn haws i'w defnyddio yn llawer cynt nag y byddai'n bosibl fel arall. Rydym hefyd yn fwy dibynnol ar arian grant ar gyfer gwaith rhestri. Talodd grant gan Ymddiriedolaeth Wellcome i gadwraethwr ac archifydd arolygu casgliad y Bwrdd Glo Cenedlaethol. Mae eu hadroddiadau wedi'u defnyddio i gynllunio project mawr bosib i wneud y casgliad pwysig hwn yn fwy hygyrch dros y flwyddyn nesaf. Mae grantiau Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru wedi ariannu gwelliannau i'r catalog ar-lein gan gynnwys cyfieithiad ar gyfer rhyngwyneb Cymraeg. Rhennir y rhain â gwasanaethau eraill yng Nghymru ar yr un system.



Mynediad

Mae nifer y defnyddwyr yn uchel o hyd, gyda 3,000 o ymweliadau â'r ystafell ymchwil gan unigolion, a chyflwynwyd 10,800 o eitemau. Gwnaed dros 7,200 o ymweliadau â'r adeilad gan gynnwys ar gyfer digwyddiadau hyfforddi nad oeddent yn ymwneud ag archifo, gan gynnal ein proffil uchel. Cynhaliwyd teithiau i 31 o grwpiau tra mynychodd staff 24 o ddigwyddiadau treftadaeth allanol yn ein hawdurdodau ariannu. Cynhaliodd Llynfi, yr ystafell grŵp, dair arddangosfa lwyddiannus. Daeth y bartneriaeth barhaus â'r Archifau Seneddol â'i harddangosfa deithiol o'r Magna Carta, gan gynnwys ein panel lleol yn dathlu cyfraniad S.O. Davies, Merthyr Tudful, i ddeddfwriaeth iawndal gweithleoedd. Hefyd, benthyciodd Amgueddfa Genedlaethol Cymru ei harddangosfa Streiciau a Therfysg i ni, a chyhoeddwyd project Prifysgol Abertawe ar anableddau a'r maes glo drwy O Ben Pwll i'r Ysbyty. Cafwyd deuddeg sgwrs yn ystod y flwyddyn ar yr arddangosiadau, ac yn gysylltiedig â digwyddiadau fel Cwpan Rygbi'r Byd a'r pantomeims Nadolig.



Cynhaliwyd gweithdai i 15 o ddosbarthiadau o 10 ysgol, gydag adnoddau digidol yn cynnig 4 yn rhagor. Ein partner yn y Diwrnod Meddiannu eleni oedd Ysgol Gynradd Gymraeg Ton-yr-efail, a oedd yn gryn brawf i'n sgiliau Cymraeg, sy'n dal i gael eu datblygu! I helpu ein siaradwr Cymraeg presennol, mae 4 aelod o staff yn mynd i ddosbarthiadau fel y gallwn gynnig gwasanaeth Cymraeg cyflawn.

Cyhoeddusrwydd

Mae digwyddiadau, hyrwyddiadau cyfryngau cymdeithasol a'n agosrwydd i stiwdios teledu a radio'n creu llawer o weithgarwch yn y cyfryngau, sy'n codi ein proffil, yn annog defnydd ac yn cael pobl i roi deunydd i ni. Mae Media Wales wedi defnyddio blogiau a dogfennau'r mis yn ei nodweddion ar-lein tra bod ein cyfraniadau Rhyfel Byd Cyntaf yn dal i ymddangos mewn cysylltiad â'r dathliadau canmlwyddiant. Mae'r cysylltiadau'n helpu i ledaenu'r gair am ein cyflawniadau, gyda'r wasg leol yn sylwi ar ein Achrediad Archifau a'n llwyddiannau wrth ddenu grantiau. Daeth y Dirprwy Gweinidog dros Ddiwylliant Twristiaeth a Chwaraeon, Ken Skates, ar ymweliad ar gyfer lansiad Archwilio Eich Archif.

Mae staff wedi ymddangos ar y BBC, S4C a Made in Cardiff. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen gan John Humphreys ar y BBC ar y Blitz yng Nghaerdydd a chofrestri olion bysedd ar Sioe Deithiol Crimewatch. Ymddangosodd Rhian Diggins, yr Uwch Archifydd, yn y ddwy. Cafodd hefyd ei chyfweld ar Good Morning Wales ynghylch troseddau ieuenctid ar ôl i flog sôn am y cofrestri. Ffilmiodd Made in Cardiff TV ddarn ar derfysgoedd hil Caerdydd ym 1919 yn yr ystafell chwilio, a'n cynnwys mewn darn ar Gwpan Rygbi'r Byd, a daeth Heno draw i'r arddangosfa Streic a Therfysg.





Ffilmiwyd *Diwrnod Meddiannu Plant* ar y sioe newyddion i blant, Ffeil, ar S4C, defnyddiodd Newyddion ITV Cymru ffotograffau archif o gorwynt de Cymru ym 1913 ar gyfer eitem ar dywydd garw, a ffilmiodd NoFitState Circus yn yr ystafell ymchwil fel rhan o'u project i gofnodi eu 30 mlynedd o hanes.

Rydym yn dal i rannu'n profiad o gael adeilad newydd a gwasanaeth o ansawdd mewn adeg anodd gyda chydweithwyr yn y DU a thu hwnt. Bu un o'n harchifwyr yn brif siaradwr yn lansiad Adolygiad Arbenigol o'r Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru ac, yn syndod, mewn cynhadledd o weithwyr proffesiynol treftadaeth o Fflandrys ym Mrwsel ar thema rhannu sgiliau. Eglurwyd a chymharwyd project CLOCH â rhaglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a gynrychiolwyd yn y gynhadledd gan yr Archifydd o Ballet Rambert.

Roedd yr ymwelwyr rhyngwladol eleni yn weithwyr proffesiynol o Weinyddiaeth Archifau Guangxi ac Archifau Dinesig Nanning, Liuzhou, Chongzuo a Hechi, pob un ohonynt yn Gyfarwyddwyr heblaw un Pennaeth Is-adran, a ddaeth draw i ddysgu am ein dull o storio a chadw. Roedd ganddynt ddiddordeb arbennig mewn cadwraeth, darparu catalogau ar-lein, llywodraethu ac ariannu. Datgelodd y catalog nifer o gofnodion yn ymwneud â chysylltiadau Morgannwg â Tsieina, ac arddangoswyd dewis ohonynt. Roedd cofnodion o ddyddiadur teithio o ddiwedd y 19eg ganrif, cardiau cofrestru tramorwyr, cofrestr ffotograffau'r Heddlu o gudd-deithwyr, ymweliad llysgennad Tsieina ag Arglwydd Faer Caerdydd ym 1986 a llythyr a anfonwyd i gyfeiriad yn Nhreganna (Canton yn Saesneg), Caerdydd yn y 1930au ar gam yn lle Canton, Tsieina. Y dogfennau hŷn, yn enwedig gweithredoedd memrwn canoloesol a seliau cŵyr, a greodd yr argraff fwyaf arnynt.



I grynhoi

Profwyd ein gwydnwch eleni mewn sawl ffordd. Dyw hi byth yn dda colli gwybodaeth a phrofiad staff hirhoedlog. Nid oedd modd gwrthbwysu hyn drwy recriwtio staff sydd newydd gymhwyso a allai gynnig golwg newydd ar bethau a sgiliau newydd. Mae absenoldeb dros dro staff hanfodol arall wedi profi hyblygrwydd ein sefydliad a chynnig cyfleoedd i ni ddefnyddio hyfforddiant a sgiliau nas defnyddiwyd yn helaeth gynt. Mae gwirfoddolwyr yn dal i'n helpu â thasgau manwl na fyddai fel arall yn cael eu cwblhau yn enwedig ym meysydd cadwraeth, cofnodi data o fynegeion copi caled ac ymchwil. Mae blogiadau bellach bron yn gyfan gwbl yn cael eu gwneud gan wirfoddolwyr.

Cydbwyllgor Archifau Morgannwg yw ein corff llywodraethu ac mae'n parhau i'n helpu a'n hannog yn y cyfeiriad rydym yn llywio'r gwasanaeth. Mae'r aelodaeth yn amrywio er y buom yn ffodus i ddenu nifer o aelodau etholedig sydd wedi bod ar y pwyllgor ers amser hir, gan sicrhau dilyniant a doethineb wrth i ni wynebu ein problemau. Eleni roedd yn drist colli dau a ymunodd â'r pwyllgor yn nyddiau Cyngor Sir Morgannwg Ganol. Bu farw'r Cyng. Ray Davies o CBS Caerffili, ar 7 Mai 2015, ac ar ei ôl T. Graham Davies, cyn-Faer Merthyr Tudful, ar 24 Mai. Mae colled fawr ar eu hôl.



Susan Edwards
Glamorgan Archivist



	Archifau Morgannwg Clos Parc Morgannwg Caerdydd CF11 8AW		029 2087 2200
	Glamro@cardiff.gov.uk		www.facebook.com/glamarchives
	www.glamarchives.gov.uk		@GlamArchives